

TELERAU AC AMODAU MANTELL GWYNEDD

DARLLENWCH Y TELERAU AC AMODAU HYN YN OFALUS CYN DEFNYDDIO'R WEFAN HON

Beth sydd yn y telerau hyn?

Mae'r telerau hyn yn dweud wrthyfch am y rheolau i ddefnyddio ein gwefan:
Cadwn bob hawl na fynegir yn benodol yn y telerau hyn.

Pwy ydym ni a sut i gysylltu â ni

Gweithredir y gwefan gan Mantell Gwynedd, ("ni"). Rydym wedi ein cofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 3420271 a'n cofrestru'n elusen o dan y rhif elusen 1068851. Mae ein swyddfa gofrestredig yn 23 – 25 Y Bont Brydd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB.

I gysylltu â ni, ebostiwrch ymholiadau@mantellgwynedd.com, ysgrifennwch at Gwefeistr, 23 – 25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB neu ffoniwch ein llinell gwasanaeth cwsmeriaid sef 01286 672 626.

Wrth ddefnyddio ein gwefan rydych yn derbyn y telerau hyn

Wrth ddefnyddio ein gwefan, rydych yn cadarnhau'ch bod yn derbyn y telerau defnyddio hyn a'ch bod yn cytuno i gydymffurfio â nhw. Os nad ydych yn cytuno â'r telerau hyn, rhaid i chi beidio â defnyddio ein gwefan. Fe'ch argymhellwn i argraffu copi o'r telerau hyn i gyfeirio atynt yn y dyfodol. Ceir telerau eraill a all fod yn berthnasol i chi.

Mae'r telerau defnyddio hyn yn cyfeirio at y telerau ychwanegol canlynol, sydd hefyd yn berthnasol i'ch defnyddio o'n gwefan:

- Mae ein Polisi Preifatrwydd yn amlinellu'r telerau yr ydym yn prosesu unrhyw ddata personol a gasglwn gennych chi yn unol â nhw, neu yr ydych chi'n ei ddarparu i ni. Wrth ddefnyddio ein gwefan, rydych yn caniatáu prosesu o'r fath ac yn gwarantu bod yr holl ddata a ddarperir gennych yn gywir.
- Y Polisi Cwcis ar gyfer pob gwefan sy'n amlinellu gwybodaeth ynglŷn â'r cwcis ar ein gwefan. Mae dolenni at ein polisiâu cwcis ar gael ar ein gwefan.

Gallwn newid y telerau hyn

Mae'n bosib y byddwn yn newid y telerau hyn o bryd i'w gilydd. Bob tro rydych am ddefnyddio ein gwefan, gwiriwch y telerau hyn i sicrhau'ch bod yn deall y telerau sydd mewn grym bryd hynny.

Gallwn newid ein gwefan

Mae'n bosib y byddwn yn diweddarau ac yn newid ein gwefan o bryd i'w gilydd.

Gallwn atal neu ddiddymu ein gwefan

Mae ein gwefan ar gael yn rhad ac am ddim.

Nid ydym yn gwarantu y bydd ein gwefan, na'r cynnwys arnynt, ar gael bob amser nac yn ddi-dor. Mae'n bosib y byddwn yn atal neu'n diddymu neu'n cyfyngu argaeledd ein gwefan, neu rhan ohoni am resymau busnes a gweithredol.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n defnyddio ein gwefan drwy eich cysylltiad â'r rhyngwrwyd yn ymwybodol o'r telerau defnyddio hyn a thelorau ac amodau perthnasol eraill, a'u bod yn cydymffurfio â nhw.

Os ydych yn derbyn côd adnabod defnyddiwr, cyfrinair neu unrhyw ddarn arall o wybodaeth fel rhan o'n gweithdrefnau diogelwch, neu os rhoddir y rhain i chi, rhaid i chi drin gwybodaeth o'r fath yn gyfrinachol. Rhaid i chi beidio â'i datgelu i drydydd parti.

Mae gennym yr hawl i ddiddymu unrhyw god neu gyfrinair adnabod defnyddiwr, ni waeth a yw'n un a ddewiswyd gennych chi neu'n un a ddarparwyd gennym ni, unrhyw bryd os yn ein barn resymol rydych wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau yn y telerau defnyddio hyn.

Os ydych yn gwybod neu'n amau bod unrhyw un arall heblaw amdanoch chi yn gwybod eich cod neu'ch cyfrinair adnabod defnyddiwr, rhaid i chi roi gwybod i ni yn brydlon drwy ebostio yhmholiadau@mantellgwynedd.com.

Sut y cewch ddefnyddio deunydd ar ein gwefan

Oni nodir yn wahanol, ni yw perchennog neu drwyddedai pob hawl eiddo deallusol ar ein gwefan, ac yn y deunydd a gyhoeddir arnynt. Gwarchodir y gweithiau hynny gan ddeddfau a chytuniadau hawlfraint o amgylch y byd. Cedwir pob hawl o'r fath. Ni chaniateir copïo nac ail drawsyrro logos, deunydd graffeg na delweddau ar wefan Mantell Gwynedd heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw ac nid yw'r caniatâd a roddir isod yn ymestyn i ddyluniad na gosodiad ein gwefan ac ni cheir eu copïo'n llawn nac yn rhannol.

Yn amodol ar yr eithriadau a nodir uchod, cewch argraffu fel copi caled, lawrlwytho i ddisg galed leol neu ddefnyddio unrhyw ddeunydd ar ein gwefan ar yr amod bod hynny at eich defnydd personol chi neu ar gael i eraill yn eich mudiad chi'n unig.

Caniateir i gopïau gael eu cyflenwi i drydydd parti ar yr amod eu bod at eu defnydd personol; na fyddant yn cael eu cyflenwi fel rhan o waith neu gyhoeddiad arall, ac na fyddant yn cael eu cyflenwi'n uniongyrchol yn gyfnewid am elw masnachol. Mae cyflenwi copi i drydydd parti yn amodol ar eu hysbysu o'r ffaith bod y telerau hyn yr un mor weithredol yn eu hachos hwythau.

Rhaid i chi beidio ag addasu'r copïau papur na digidol o ddeunyddiau yr ydych wedi'u hargraffu neu eu lawrlwytho mewn unrhyw ffordd, a rhaid i chi beidio â defnyddio delweddau, ffotograffau, dilyniannau fideo neu sain neu unrhyw ddeunyddiau graffeg heb unrhyw destun sy'n mynd gyda nhw. Caniateir cyfieithu ar yr amod eich bod yn derbyn cyfrifoldeb llawn am gywirdeb y cyfieithiad.

Rhaid bob amser gydnabod ein statws (a statws unrhyw gyfranwyr a nodir) fel awduron y cynnwys ar ein gwefan. Rhaid cadw pob hysbysiad hawlfraint a pherchnogol yn gyflawn, a rhaid atgynhyrchu ein cyfeiriad a'n manylion cyswllt.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu ein deunydd hawlfraint yn ymestyn i unrhyw ddeunydd ar y gwefan sydd wedi'i nodi fel hawlfraint trydydd parti. Rhaid cael caniatâd uniongyrchol deiliad yr hawlfraint berthnasol i atgynhyrchu deunydd o'r fath.

Os ydych yn argraffu, yn copïo neu'n lawrlwytho unrhyw ran o'n gwefan yn groes i'r telerau defnyddio hyn, bydd eich hawl i ddefnyddio ein gwefan yn dar fod ar unwaith a rhaid i chi, yn ôl ein dewis ni, ddychwelyd neu ddinistrio unrhyw gopïau o'r deunyddiau yr ydych wedi'u gwneud.

Byddem yn barod i ystyried ceisiadau am ganiatâd i ddefnyddio deunydd o'n gwefan sydd y tu hwnt i delerau'r caniatâd a nodir uchod. Rhaid gwneud cais o'r fath yn ysgrifenedig ymlaen llaw a'i gyfeirio at yhmholiadau@mantellgwynedd.com

Peidiwch â dibynnu ar wybodaeth ar y gwefan

Darperir y cynnwys ar ein gwefan er gwybodaeth yn unig. Ni fwriedir iddo fod yn gyngor y dylech ddibynnu arno. Rhaid i chi gael cyngor proffesiynol neu arbenigol cyn penderfynu gweithredu neu beidio â gweithredu ar sail y cynnwys ar ein gwefan. Ni dderbyniwn gyfrifoldeb am wallau, hepgoriadau, datganiadau camarweiniol nac am ganlyniadau hynny.

Er ein bod yn ymdrechu'n rhesymol i ddiweddarau'r wybodaeth ar ein gwefan, nid ydym yn honni nac yn gwarantu, boed yn ddiawmys neu'n ymhlyg, fod y cynnwys ar ein gwefan yn gywir, yn gyflawn nac wedi'i ddiweddarau. Nid yw cyfeiriad at unrhyw fudiad, cwmni neu unigolyn ar ein gwefan, neu unrhyw wefannau eraill y mae dolen atynt, yn golygu ein bod yn cymeradwyo nac yn gwarantu eu henw da na'u gallu.

Nid ydym yn gyfrifol am wefannau yr ydym yn darparu dolenni atynt

Pan fo ein gwefan yn cynnwys dolenni at wefannau eraill ac adnoddau a ddarperir gan drydydd partïon, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth yn unig. Nid yw darparu dolenni o'r fath yn golygu ein bod yn cymeradwyo gwefan'r dolenni hynny nac unrhyw wybodaeth a gewch chi ohonynt.

Nid oes gennym reolaeth dros gynnwys y gwefan na'r adnoddau hynny.

Nid ydym yn cymeradwyo cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr

Gall ein gwefan gynnwys gwybodaeth a deunyddiau a uwchlwythir gan ddefnyddwyr eraill o'r gwefan. Nid ydym wedi gwirio na chymeradwyo'r wybodaeth na'r deunyddiau hyn ac ni dderbyniwn gyfrifoldeb am unrhyw wallau, hepgoriadau neu anghywirdeb mewn deunydd a gyflwynir. Nid yw'r farn a fynegir gan ddefnyddwyr eraill ar ein gwefan yn cynrychioli ein barn na'n gwerthoedd ni.

Os hoffech gwyno ynghylch gwybodaeth a deunyddiau a uwchlwythir gan ddefnyddwyr eraill cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir ar dudalen gyntaf y telerau hyn.

Ein cyfrifoldeb am golled neu ddifrod a ddaw i'ch rhan chi

I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, rydym yn gwrthod pob cyfrifoldeb am hawliau sy'n codi o ddefnydd o'n gwefan, neu'n gysylltiedig â'u defnyddio, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) hawliau sy'n codi o oedi, toriad neu anallu i gael at y gwefan a defnyddio unrhyw gynnwys ar ein gwefan neu ddibynnu arno. Nid ydym yn gwrthod nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ein cyfrifoldeb i chi pan fyddai gwneud hynny'n anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod neu esgeulustod ein cyflogion, ein hasiantau neu ein his-gontractwyr ac am dwyll neu gamliwio twyllodrus.

Uwchlwytho cynnwys i'n gwefan

Pryd bynnag rydych yn defnyddio nodwedd sy'n eich galluogi i uwchlwytho cynnwys i'n gwefan, neu i gysylltu â defnyddwyr eraill o'n gwefan, rhaid i chi gydymffurfio â'r safonau cynnwys a nodir yn ein Polisi Defnydd Derbyniol.

Rydych yn gwarantu bod unrhyw gyfraniad o'r fath yn cydymffurfio â'r safonau hynny, a byddwch yn atebol i ni ac yn ein hindemnio os torrir y warant honno mewn unrhyw ffordd. Golyga hyn y byddwch yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a ddaw i'n rhan ni o ganlyniad i dorri'ch gwarant.

Os ydych yn uwchlwytho cynnwys i'n gwefan, ystyriwn nad yw'r cynnwys hwn yn gyfrinachol a'i fod yn amherchnogol. Byddwch yn cadw'ch holl hawliau perchnogaeth i'ch cynnwys, ond bydd yn ofynnol i chi roi trwydded gyfyngedig i ni a defnyddwyr eraill o'n gwefan i ddefnyddio, storio a chopio'r cynnwys hwnnw ac i'w ddsbarthu a'i wneud ar gael i drydydd partïon.

Mae gennym hefyd yr hawl i ddatgelu eich hunaniaeth i unrhyw drydydd parti sy'n hawlio bod unrhyw gynnwys a bostiwyd neu a uwchlwythwyd gennych chi i'n gwefan yn torri eu hawliau eiddo deallusol, neu eu hawl i breifatrwydd.

Cadwn yr hawl i hepgor, atal neu olygu unrhyw ddeunydd a gyflwynir a dileu unrhyw beth rydych yn ei roi ar ein gwefan os, yn ein barn ni, nad yw'ch cynnwys yn cydymffurfio â'r safonau cynnwys a nodir yn ein Polisi Defnydd Derbyniol.

Chi, a chi yn unig, sy'n gyfrifol am ddiogelu'ch cynnwys a chreu copi wrth gefn ohono.

Meddalwedd Trydydd Parti

Mae Mantell Gwynedd yn defnyddio meddalwedd trydydd parti ar gyfer darparu gwasanaethau. Er mwyn cyflawni hyn, gall peth o'ch data personol gael ei gadw gan wasanaethau trydydd parti. Mae'r holl wasanaethau a ddefnyddir yn cydymffurfio â gofynion gwarchod data; nodir hyn yn eu polisïau unigol hwy. Defnyddir y data ar gyfer defnydd a gytunwyd gan Mantell Gwynedd yn unig ac nid am reswm arall a bennir gan y gwasanaethau trydydd parti er enghraifft www.eventbrite.co.uk pan fydd digwyddiad cyhoeddus yn cael ei drefnu gan Mantell Gwynedd.

Nid ydym yn gyfrifol am feirysau a rhaid i chi beidio â'u cyflwyno

Nid ydym yn gwarantu y bydd ein gwefan yn ddiogel nac yn rhydd rhag bygiau na feirysau.

Chi sy'n gyfrifol am ffurfweddu eich technoleg gwybodaeth, eich rhaglenni cyfrifiadurol a'ch llwyfan i gael at ein gwefan. Dylech ddefnyddio'ch meddalwedd eich hun i warchod rhag feirysau.

Rhaid i chi beidio â chamddefnyddio ein gwefan drwy gyflwyno feirysau, trojans, mwydod, bomiau rhesymeg neu ddeunydd arall sy'n faleisus neu'n dechnolegol niweidiol. Rhaid i chi beidio â cheisio cael mynediad heb awdurdod at ein gwefan, y gweinyddion y mae ein gwefan yn cael eu storio arnynt nac unrhyw weinydd, cyfrifiadur neu gronfa ddata sy'n gysylltiedig â'n gwefan. Rhaid i chi beidio ag ymosod ar ein gwefan drwy ymosodiad gwrthod gwasanaeth nac ymosodiad gwrthod gwasanaeth wedi'i ddsbarthu. Os ydych yn torri'r ddarpariaeth hon, byddech yn cyflawni trosedd o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990. Byddwn yn rhoi gwybod am unrhyw doriad o'r fath i awdurdodau gorfodi'r gyfraith berthnasol a byddwn yn cydweithredu â'r awdurdodau hynny trwy ddatgelu eich hunaniaeth iddynt hwy. Mewn achos o'r fath, bydd eich hawl i ddefnyddio ein gwefan yn darfod ar unwaith.

Rheolau ynglŷn â darparu dolenni at ein gwefan

Cewch greu dolenni at ein gwefan ar yr amod eich bod yn rhoi gwybod i ni yn ysgrifenedig cyn creu'r ddolen a'ch bod yn darparu dolenn at ein gwefan mewn ffordd deg a chyfreithlon nad yw'n niweidio ein henw da nac yn manteisio arno.

Rhaid i chi beidio â sefydlu dolenn mewn ffordd sy'n awgrymu unrhyw fath o gysylltiad, cymeradwyaeth neu ardystiad ar ein rhan ni pan nad yw hynny'n bodoli.

Rhaid i chi beidio â sefydlu dolenn at ein gwefan ar unrhyw wefan nad ydych yn berchen arni.

Cadwn yr hawl i dynnu caniatâd creu dolenn yn ôl heb rybudd.

Rhaid i'r wefan sy'n cynnwys y ddolen gydymffurfio ym mhob agwedd â'r safonau cynnwys a nodir yn ein Polisi Defnydd Derbyniol.

Y Gymraeg

Rydym yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg. Mae ein gwefan yn galluogi defnyddwyr proffil i uwchlwytho gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac anogwn hyn yn gryf. Os nad oes gennych wasanaeth cyfieithu ond hoffech uwchlwytho gwybodaeth yn ddwyieithog cysylltwch â ni i gael gwybodaeth am gwmnïau cyfieithu drwy e-bostio ymholiadau@mantellgwynedd.com.

Deddfau pa wlad sy'n llywodraethu unrhyw anghydfodau?

Llywodraethir y telerau defnyddio hyn, eu cynnwys a'u ffurfiant (gan gynnwys unrhyw anghydfodau neu hawliau digontract) gan gyfraith Cymru a Lloegr. Cytunwn ni'n dau i awdurdodaeth lwyr llysoedd Cymru a Lloegr.